

Her Haf Prifysgol y Plant!



Bydd yn bositif!

Beth am greu jar positifrwydd!
Addurna hen jar neu gynhwysydd a nôl rhywfaint o bapur a rhai beiros. Meddylia am bethau rwy'ti'n eu hoffi am dy hun a phethau sy'n dy wneud yn hapus. Ysgrifenna'r rhain ar ddarnau o bapur i'w rhoi yn y jar a'u hagor pan fydd angen codi dy galon!

Dechreua ddysgu!

Ceisia ddod o hyd i gerdd rwy'ti'n ei hoffi, gallai fod yn ddifrifol neu'n wirion! Yna ei dysgu ar dy gof. Mae hyn yn golygu y gallet ei chofio heb orfod ei darllen. Ar ôl i ti ei dysgu, beth am ei pherfformio i bawb yn dy gartref!

Bydd yn greadigol!

Edrycha yn y drych. Yna, gan ddefnyddio paent, creonau neu farcwr, ceisia greu ddehongliad artistig o dy wyneb dy hun. Gelwir hyn yn hunanbortread. Ysgrifenna baragraff o dan dy waith am yr hyn sy'n dy wneud yn arbennig.

Pethau i'w gwneud yr haf hwn!

Mae pob gweithgaredd yn werth 1 credyd. I gael cod stamp ar gyfer Prifysgol y Plant ar-lein e-bostiwrch contactus@childrensuniversity.co.uk gyda thystiolaeth - gallai hyn fod yn ffotograff, fideo, taflen waith, neu'n ysgrifennu am yr hyn a wnaethoch! Mae pob gweithgaredd angen goruchwyliaeth oedolion. Disgwylir i'r oedolyn goruchwyllo reoli'r holl risg o ran gweithgaredd.

Rho gynnig ar goginio!

Defnyddia wefan BBC Goodfood i ddod o hyd i rysâit syml y gallet ei goginio ar gyfer pawb gartref gan ddefnyddio'r cynhwysion sydd gen ti gartref.

<https://tinyurl.com/yck2ndn8>

Cer allan!

Cer allan a chreu cwrs hyfforddiant cylchol! Hyfforddiant cylchol yw pan fydd gwahanol ymarferion neu weithgareddau corfforol yn cael eu perfformio un ar ôl y llall. Mae'n hwyl ac yn ffordd dda o ymarfer y corff cyfan. Gwna ddiagram o'r ymarferion rwy'ti'n eu dewis.

Her Haf Prifysgol y Plant!



Dechreua ysgrifennu!

Meddylia am le rwyd ti wedi ymweld ag ef neu yr hoffet ymweld ag ef. Dylunia ganllaw taith am y gyrchfan. Gallai dy ganllaw gynnwys lleoedd i ymweld â nhw, pethau i'w gwneud a gwybodaeth leol. Gwna'r canllaw mor lliwgar â phosibl!

Dechreua adeiladu!

Gwna fodel o adeilad rwyd ti'n ei hoffi. Gallai fod yn adeilad enwog fel y Tŵr Eiffel neu'n adeilad yn dy dref. Ceisia ei wneud allan o ddeunyddiau sydd gen ti yn dy gartref fel Lego, ailgylchu neu gerdyn!

Dechreua breuddwydio!

Cadwa gyfnodolyn breuddwydion am wythnos. Rho lyfr nodiadau a phensil wrth dy wely a phan fyddi di'n deffro yn y bore, ysgrifenna unrhyw beth y galli di ei gofio am y breuddwydion a ges di. Ceisia bod mor ddisgrifiadol â phosibl.

Pethau i'w gwneud yr haf hwn!

Symuda dy gorff!

Mae'n amser ar gyfer parti glanhau haf! Rho dy hoff ganeuon ymlaen a thacluso neu ad-drefnu dy ystafell. Mae'n esgus gwych i lanhau cyn gwyliau'r haf a didoli unrhyw deganau a dillad nad wyt yn eu defnyddio mwyach i roi i elusen!

Bydd yn ddychmygus!

Beth yw comig? Cei wybod trwy wyllo'r fideo byr hwn gan BBC Bitesize a gwyllo'r artist Mollie Ray. Yna gwna dy stribed comig dy hun.

<https://tinyurl.com/4942u6kf>

Bydd yn wyddonol!

Wyt ti wedi clywed yr ymadrodd 'mor ddiwyd â'r wenynen'? Ymchwilia i wenyn a gwna boster yn dweud wrth bobl yr holl bethau sy'n cadw gwenyn mor brysur ac yn eu gwneud mor bwysig i'r amgylchedd.